

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40
(FFYRDD YMADAEL AC YMUNO TUA'R
GORLLEWIN WRTH GYFFORDD
TRAVELLERS REST, SIR GAERFYRDDIN)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin cefnffordd yr A40, neu gerllaw iddynt, wrth Gyffordd Travellers Rest yn Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin cefnffordd yr A40 wrth Gyffordd Travellers Rest.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin sy'n dymuno ymadael wrth Gyffordd Travellers Rest fydd aros ar gerbyffordd tua'r gorllewin yr A40 at Gylchfan Sanclêr, yna ymadael a dychwelyd ar gerbyffordd tua'r dwyrain yr A40 i ymadael â'r A40 ar y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Travellers Rest a mynd ar y drosbont a'r ffordd gyswllt.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin sy'n dymuno cyrraedd yr A40 wrth Gyffordd Travellers Rest fydd mynd ar y ffordd gyswllt a'r drosbont i ymuno â ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A40 a mynd ar gerbyffordd tua'r dwyrain yr A40 i Gylchfan Pont Lesneven a dychwelyd ar yr A40 tua'r gorllewin.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (20:00 o'r gloch tan 06:00 o'r gloch) o 9 Mai 2022 hyd 25 Mai 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**THE A40 TRUNK ROAD (WESTBOUND EXIT
AND ENTRY SLIP ROADS AT TRAVELLERS
REST JUNCTION, CARMARTHENSHIRE)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the westbound entry and exit slips of the A40 trunk road at Travellers Rest Junction in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than vehicles being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the westbound exit and entry slip roads of the A40 trunk road at Travellers Rest Junction.

The alternative route for westbound vehicles wishing to exit at Travellers Rest Junction will be to remain on the A40 westbound carriageway to St Clears Roundabout, then exit and return on the A40 eastbound carriageway to leave the A40 on the eastbound exit slip road at Travellers Rest and proceed on to the overbridge and link road.

The alternative route for westbound vehicles wishing to access the A40 at Travellers Rest Junction will be proceed on to the link road and overbridge to join the A40 eastbound entry slip road and proceed on the A40 eastbound carriageway to Pont Lesneven Roundabout and return on the A40 westbound.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, is expected to operate overnight (20:00 hours to 06:00 hours) from the 9 May 2022 until the 25 May 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

J SADDLER
Transport
Welsh Government